ASTUDIAETH ACHOS:

Gorsaf Bŵer Hartlepool

GWYBODAETH ALLWEDDOL

SAFLE:
Gorsaf Bŵer Hartlepool (1185 MW)

GWERTH Y PROJECT:
£30 miliwn

HYD:
9 wythnos

Trosolwg o'r project

Fis Awst 2019 cymerwyd un o'r ddau adweithydd niwclear yng ngorsaf bŵer Hartlepool allan o wasanaeth ar gyfer rhaglen gynnal a chadw arfaethedig o £30m. Cyflawnwyd y 'toriad statudol' yn llwyddiannus gyda chymorth ac arbenigedd cadwyn gyflenwi beirianneg leol gyda chefnogaeth darparwyr gwasanaethau sylfaenol amlddisgyblaethol.

Manylion y datrysiad/ dull gweithredu

Ymunodd tua 500 o weithwyr ychwanegol â'r 700 oedd yn nhîm y safle yn ystod y cyfnod o naw wythnos a chyflawni mwy na 1,200 o ddarnau o waith neilltuol – pob un wedi'i gynllunio'n ofalus yn ystod y ddwy flynedd flaenorol o baratoi. Roedd y rhaglen waith helaeth yn cynnwys archwiliadau y tu mewn i'r adweithydd, gosod offer newydd, yn fwyaf nodedig gosod trawsnewidydd newydd i'r generadur sy'n cynyddu foltedd trydan y safle cyn ei allforio i'r grid.

> *"Rydym yn cynhyrchu digon o drydan carbon isel ar gyfer tua dwy filiwn o gartrefi. Mae'r toriadau statudol arfaethedig yma yn y cyflenwad trydan yn fuddiol iawn i'r gymuned leol gan greu gwaith ychwanegol a rhoi hwb i fusnesau lleol gan gynnwys gweithdai peirianneg, cyflenwyr bwyd, siopau, gwestai, bwytai a gwasanaethau tacsi."*
>
> **Craig Dohring, Cyfarwyddwr Gorsaf Hartlepool**

INVEST | TEES VALLEY

EDF ENERGY

NORTH WEST NUCLEAR ARC

Copyright © 2020 NWNA